**Ffair Arfau DSEi, Llundain, Medi 2017**

Bydd un o'r ffeiriau arfau mwyaf yn y byd yn cael ei gynnal ym mis Medi 2017 yn Llundain. Cynhelir y DSEi (*Defence & Security Equipment International*) yn yr ExCel Exhibition Centre yn ardal y dociau pob dwy flynedd, ac mae cynrychiolwyr o gwmnïau arfau fel BAE, Lockheed Martin, Boeing a Raytheon, a llywodraethau gormesol ledled y byd yn ei fynychu, gan gynnwys (yn 2015) Saudi Arabia, Twrci, Pacistan, Oman, Qatar a'r Aifft. Ymysg yr arfau ac offer milwrol ar werth yn 2015 roedd taflegrau, awyrennau, tanciau, llongau rhyfel a gynnau.

Bu cannoedd o bobl yn rhan o wythnos o brotestio yn erbyn y ffair yn 2015, ac mae'r Mudiad yn erbyn y Fasnach Arfau (*Campaign Against the Arms Trade*) yn galw ar bobl i ymuno yn y protestiadau yn yr wythnos cyn y ffair unwaith eto eleni. Y bwriad yw gwneud y paratoadau ar gyfer y ffair mor anodd â phosib i'r trefnwyr yn ystod yr wythnos hon trwy flocio mynedfeydd a hewlydd ayyb. Bydd protestiadau pob dydd rhwng y 4ydd a'r 9fed o Fedi gan orffen gyda gorymdaith fawr ar Ddydd Sadwrn y 9fed o Fedi ('Big Day of Action'). Bydd aelodau o Gymdeithas y Cymod yn rhan o'r brotest hon ac rydym yn gofyn i unrhyw un sydd â diddordeb i ymuno yn y brotest hefyd er mwyn ceisio cau lawr y ffair arfau unwaith ac am byth. Ceir mwy o fanylion am y digwyddiadau hyn ar y wefan 'Stop the Arms Fair':

https://www.stopthearmsfair.org.uk/events/stop-the-arms-fair-week-of-action/

**Ffair Arfau Caerdydd 2018**

Mae trefnwyr y ffair arfau DPRTE (*Defence & Procurement Research & Technology Exportability*) yng Nghaerdydd – cwmni preifat Americanaidd – wedi cadarnhau ar ei gwefan y bydd yn cael ei gynnal unwaith eto yn y Motorpoint Arena ar y 27ain o Fawrth 2018. Disgrifir y digwyddiad fel 'the UK's leading defence procurement event' gan y trefnwyr eu hunain, ac mae'n rhan bwysig o hwyluso a hyrwyddo'r fasnach arfau a'r cwmnïau sy'n elwa ohono. Bydd cell Caerdydd o Gymdeithas y Cymod yn protestio yn erbyn cynnal y ffair arfau yng nghanol y ddinas eto dros y misoedd nesaf ac yn annog cynifer o bobl â phosib i ymuno yn y gwrthdystiadau tu allan i'r adeilad ar y diwrnod. Y bwriad yw cael digon o bobl i brotestio yn erbyn y ffair i wneud i'r trefnwyr ail-feddwl am ei gynnal yn ein prifddinas (fe symudwyd y ffair o Fryste eisoes wedi i brotestiadau effeithiol iawn gael eu trefnu yno gan ymgyrchwyr lleol). Gall unrhyw un sy'n gwrthwynebu'r ffair arfau ymuno yn ein protest ar y diwrnod, neu trwy ysgrifennu at y Motorpoint Arena, Cyngor Dinas Caerdydd, a'i Haelod o'r Cynulliad i ofyn iddynt ailystyried cynnal y digwyddiad yn ein prifddinas. Byddwn yn gweithio eto gyda'r Mudiad yn Erbyn y Fasnach Arfau (*Campaign Against the Arms Trade*) eleni i geisio cau'r ffair arfau lawr yng Nghaerdydd.